SKSG13

Codi a thracio dolis camera

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â chodi a thracio dolis camera. Gall dolis fod yn drydanol neu rai sy'n defnyddio system bwysedd. Mae'n ymwneud â deall y dull o weithredu'r offer a'r cyfyngiadau ynghlwm ag ef a dehongli anghenion y cynhyrchiad er mwyn darparu symudiadau diogel ar gyfer mowntiau'r camera.

Mae'n ymwneud â chyfathrebu'n glir a manwl gyda'r aelodau criw perthnasol er mwyn cyflawni atebion artistig sy'n cwrdd ag anghenion y cynhyrchiad.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 Symud camerâu mewn symudiad llyfn yn unol â gofynion y cyfarwyddwr neu weithredwr y camera ar bob achlysur

2 Amseru pob symudiad fertigol a llorweddol i siwtio gofynion y cynhyrchiad

3 Adnabod symudiadau sydd y tu hwnt i allu'r offer, neu a gyfyngir gan y personél sydd ar gael

4 Gweithredu dolis trydanol neu'r rheiny â systemau pwysedd yn unol â rheoliadau diogelwch a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

5 Adrodd am gyfyngiadau wrth staff cynhyrchu perthnasol a cheisio a chyflwyno atebion dichonadwy

6 Rhoi hysbysiad clir i bawb sy'n gweithio ynghylch llwybr bwriedig ac uchderau gweithio

7 Gwirio fod llwybrau'n rhydd o bobl nad ydyn nhw'n hanfodol, ceblau a rhwystrau eraill

8 Gwirio fod amodau amgylcheddol o fewn i fanylebau'r offer

9 Cyfathrebu gyda phobl eraill mewn modd sy'n gwella ansawdd ac effeithiolrwydd symudiadau

10 Sicrhau'r dolis ar ôl eu defnyddio yn unol â manylebau'r gwneuthurwyr a chytuno ar bob symudiad o'r fath gyda gweithredwyr eraill

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 Deddfwriaeth berthnasol, canllawiau ac arfer orau'r diwydiant

2 Sut i weithio offer tracio a chodi

3 Y gwahaniaethau mewn ymarfer wrth weithio gyda dolis trydan a rhai sy'n defnyddio systemau pwysedd

4 Ystyriaethau diogelwch wrth ddefnyddio dolis trydan a rhai sy'n defnyddio systemau pwysedd

5 Sut mae systemau pwysedd yn gweithio, eu perthnasedd a sut i'w ail-lenwi

6 Llwythi gweithio diogel, gan gynnwys sut i wrthbwyso llwythi systemau sy'n llawn hydroleg neu nwy

7 Manteision gwaith tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

8 Cyfyngiadau lleoliad, cydbwysedd ac uchder yr offer yr ydych chi'n gweithio gydag ef

9 Ble i gael gwybodaeth am ofynion y cynhyrchiad

10 Rolau staff cynhyrchu eraill a phryd y mae angen i chi gyfathrebu â nhw

11 Sut i ddiogelu offer pan nad yw ar waith

12 Pam ei bod hi'n bwysig cadw offer yn sych ac yn rhydd o lwch, tywod a malurion eraill

Codi a thracio dolis camera

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG13
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu); Grip; Grip dan hyfforddiant
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Grip, Tracio, Doliau camera, Iechyd a diogelwch